# Ordinhad 8:

# Y Cyngor: Gofalu am y Sêl Gyffredin a'r Defnydd ohoni

| | |
|---|---|
| Corff Cymeradwyo: | Y Pwyllgor Enwebiadau & Llywodraethu ar ran Y Cyngor |
| Dyddiad Cymeradwyo: | 21 Ionawr 2021 |
| Perchennog y Polisi: | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Swyddog Polisi: | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio |
| Statws y Polisi: | Newydd |
| Fersiwn: | 1.1 |
| Dyddiad adolygu: | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 8:
# Y Cyngor: Gofalu am y Sêl Gyffredin a'r Defnydd ohoni

1. Y Cyngor yn unig fydd yn gofalu am Sêl Gyffredin y Brifysgol a'r defnydd ohoni gyda phŵer llawn i dorri'r Sêl honno neu ei gwneud o'r newydd (Siarter, Adran 7.1).

2. Ysgrifennydd y Cyngor fydd yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelwch y Sêl Gyffredin, ac am reoleiddio ei defnydd.

3. Rhaid selio dogfennau o ganlyniad i:

   i. Benderfyniad gan y Cyngor; neu
   ii. Benderfyniad gan unrhyw berson neu gorff o bobl sy'n gweithredu gyda gawdurdod dirprwyedig gan y Cyngor, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â thrafodion penodol.

4. Bydd gosod y Sêl yn cael ei ddilysu gan:

   i. Ddau aelod o'r Cyngor; ac
   ii. Ysgrifennydd y Cyngor

5. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cadw Cofrestr Selio, gan gofnodi ar gyfer pob defnydd, y dyddiad, manylion y ddogfen sy'n cael ei selio ac enwau trydydd parti perthnasol.

6. Ar gyfer pob selio, rhaid i'r llofnodwyr a restrir o dan 4 uchod lofnodi'r Gofrestr Selio i gadarnhau dilysrwydd y sêl.

7. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn adrodd ar restr o'r dogfennau hynny sydd wedi'u selio yn unol â'r Ordinhad hwn i gyfarfod dilynol y Cyngor.